# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# IMI Diploma Estynedig mewn Egwyddorion Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Ysgafn Lefel 2



**Yn gryno**

O fewn y cwrs hwn, ceir cipolwg trylwyr a dynamig ar y dechnoleg gymhleth, y gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio sy'n ymwneud â cherbydau modur.

Mae gan y cwrs hwn unedau ychwanegol, o'i gymharu â'r cymhwyster Diploma Lefel 2, i gynorthwyo'r ymgeiswyr hynny sy'n anelu at Addysg Uwch neu Brentisiaethau Lefel Uwch.

Os byddwch yn mynd yn eich blaen i wneud prentisiaeth mewn cerbydau modur, byddwch yn cwblhau'r elfen ddamcaniaethol sydd ei hangen i wneud hynny drwy'r cwrs hwn.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Rydych eisiau astudio ar lefel gradd ar gyfer gyrfaoedd megis Peiriannydd Modurol

... Rydych eisiau dod yn dechnegydd diagnostig/uwch dechnegydd medrus

... Rydych yn gweithio'n galed ac yn datrys problemau'n dda.

... Rydych eisiau cyfuniad o astudio ymarferol a damcaniaethol

... Rydych yn gallu datrys problemau ac mae gennych ddiddordeb brwd mewn cerbydau

...Rydych chi eisiau gweithio i safonau proffesiynol uchel a'u cynnal

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Byddwch yn astudio'r unedau technoleg cerbydau canlynol fel rhan o'ch astudiaethau:

Gwaith cynnal a chadw cerbydau arferol
Technoleg injan cerbydau ysgafn
Systemau trydanol ac electronig cerbydau
Technoleg fframiau cerbydau ysgafn
Archwiliadau cerbydau
Systemau trawsyriant cerbydau ysgafn

Byddwch hefyd yn astudio'r unedau uwch canlynol, sy'n ychwanegol at unedau'r Diploma Lefel 2 uchod:

Mathemateg Cerbydau
Gwyddoniaeth Cerbydau
Electroneg Cerbydau
TGCh Cerbydau

Byddwch yn cael eich asesu drwy dasgau ac arsylwadau profi gallu ymarferol, aseiniadau ysgrifenedig a phrofion ar-lein.

Drwy gwblhau'r cwrs, byddwch yn cyflawni:

Diploma Estynedig mewn Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Lefel 2, Sefydliad y Diwydiant Moduron (IMI)
Cymwysterau ategol priodol er mwyn ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant
Gweithgareddau Sgiliau (fel rhan o'r Her Tystysgrif Sgiliau)

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn hanfodol, yn ogystal â'r gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm. Dylech hefyd fod yn awyddus iawn i weithio yn y diwydiant cerbydau modur,

cydymffurfio ag ethos y coleg a bod yn barod i wella eich lefel o wybodaeth am bynciau academaidd.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Lefel 3/Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn
HNC Peirianneg Fodurol
Cyflogaeth
Prentisiaeth
Astudiaeth lefel uwch yn y brifysgol

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen ichi brynu Cyfarpar Diogelu Personol priodol, fel esgidiau ac oferôls, a fydd yn costio oddeutu £40.00. Hefyd, bydd angen ichi ddarparu eich defnyddiau ysgrifennu a'ch ffolderi eich hun.